

BWRDD PENSIWN DYDD LLUN, 7 EBRILL 2025

Yn bresennol:

Anthony Deakin, Eifion Jones ac Osian Richards (Cynrychiolwyr Aelodau)

Sioned Parry (Cadeirydd) a Ned Michael (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

DIWEDDARIAD SEDD WAG

Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Cyllid ar y camau sydd wedi eu cymryd i ganfod Aelod newydd i'r Bwrdd. Atgoffwyd yr Aelodau, yn unol â'r cylch gorchwyl, bydd y penodiad (fel cynrychiolydd cyflogwr) wedi ei gyfyngu i Aelodau a staff Cyngor Gwynedd yn unig. Nodwyd bod un cais wedi dod i law ac mai'r cam nesaf fydd trefnu cyfweiliad.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 4ydd Chwefror 2025 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddarau'r Aelodau ar gynllun hyfforddiant 2024/25 a gosod cynllun hyfforddiant bras ar gyfer 2025/26. Ystyriwyd bod cynllun 2024/25 wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i aelodau'r Bwrdd am fynychu sesiynau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a'r Cynadleddau oedd yn cael eu canmol fel rhai defnyddiol ac amserol.

Wrth drafod cynllun hyfforddiant 2025/26, cyfeiriwyd at ganlyniadau Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson a gwblhawyd gan yr Aelodau yn ddiweddar gan nodi bod Hymans Robertson wedi adnabod rhai meysydd sydd angen sylw pellach ynghyd â meysydd roedd yr Aelodau eu hunain wedi eu dewis. Nodwyd bod sesiwn hyfforddiant ar ddulliau a rhagdybiaethau actiwaraid eisoes wedi ei gynnal a bod hyfforddiant ar sero net a llywodraethu i'w gynnal yn fuan. Ategwyd y bydd eitem gweinyddiaeth pensiwn yn cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Bwrdd ac y bydd modd darparu hyfforddiant yn ôl y galw yn y Paneli Buddsoddi; bydd yr Aelodau hefyd yn parhau i dderbyn sesiynau hyfforddiant gan PPC, mynychu a derbyn gwybodaeth mewn nifer o gynadleddau a chael y cyfle i dderbyn hyfforddiant ar lein.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod y cynllun hyfforddiant yn cwmpasu nodweddion yr asesiad
- Bod y rhaglen yn un gynhwysfawr
- Bod webinarau PPC a Hymans yn fuddiol iawn

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â webinarau PPC a'r posibilrwydd o dderbyn dyddiadau ymlaen llaw am y flwyddyn, nodwyd mai ar gylchred chwarterol roeddynt yn cael eu trefnu ac er derbyn bod hyn yn fyr rybudd y byddai'r dyddiadau yn cael eu rhannu fel yr oeddynt yn cael eu cyhoeddi.

Derbyniwyd y Cynllun Hyfforddiant er gwybodaeth

6. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddar i'r aelodau'n ffurfiol o waith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Nodwyd bod yr adroddiad bellach yn un sy'n cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Bwrdd ac yn elfen bwysig iawn o Gronfa Bensiwn Gwynedd sydd bellach gyda 85% o'r gronfa wedi'i bwlio.

Adroddwyd bod y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn cynrychioli'r Gronfa yn holl gyfarfodydd y pwl, a bod y cydweithio yn parhau i fynd yn dda ar faterion megis ymateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth, pleidleisio ac ymgysylltu ac yn gyffredinol rhannu ymarfer da ar draws y cronfeydd.

Tynnwyd sylw at y cronfeydd gan amlygu bod perfformiad y cronfeydd ar y cyfan wedi bod tu ôl i'r meincnod ers y dechrau a hyn yn benodol gan fod y meincnod a osodwyd yn heriol e.e. ar gyfer y Gronfa sustainable equity y meincnod yw MSCI All Country World Index, sydd yn cynnwys yr holl gwmnïau, ond bod cwmnïau y mae'r Gronfa yn gallu buddsoddi ynddi wedi ei gyfyngu. Eglurwyd bod Cronfa Global Growth wedi bod mewn bodolaeth ers dros 5 mlynedd ac wedi tan berfformio'r meincnod. O ganlyniad, mae Russell Investments wedi newid strwythur y gronfa yma ac wedi newid y rheolwyr o fewn y portffolio - bydd swyddogion Gwynedd, ymgynghorwyr y Gronfa, Hymans Robertson a swyddogion PPC yn monitro'r cronfeydd yn fanwl yn y dyfodol.

Adroddwyd bod cronfeydd newydd marchnadoedd preifat yn prysur gael ei sefydlu gyda diweddariad i'w rannu pan fydd perfformiad y cronfeydd yma yn cael ei dderbyn. Yn yr un modd, nodwyd bod y Bartneriaeth yn sefydlu cronfeydd eiddo ac y bydd trafodaeth yn cael ei gynnal gyda Hymans Robertson i drafod pa opsiwn y gellid manteisio arno.

Cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' a gafodd ei lansio gan Lywodraeth y DU oedd yn trafod tri maes allweddol:

- Diwygio'r trefniadau pwlio asedau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol
- Hybu buddsoddiadau lleol
- Cryfhau llywodraethu o fewn y cronfeydd pensiwn.

Amlygwyd bod ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei gyflwyno gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ynghyd ag achos busnes sy'n awgrymu mai'r ffordd ymlaen i PPC yw i Gymru gadw cronfa CPLIL annibynnol gan adeiladu ar lwyddiant trefniadau cronni presennol. Ategwyd y byddai modd gwneud hynny drwy greu cwmni buddsoddi o dan yr enw 'IM Co'; yr ail opsiwn fyddai bod fel is bartner neu gleient mewn pŵl gyda chronfeydd mwy yn rheoli, ynghyd â chostau trosiannol. Nodwyd, petai Cronfa Bensiwn Gwynedd eisiau parhau i gael llais mewn penderfyniadau, siapio buddsoddiadau addas i'w proffil a sicrhau buddsoddi yng Nghymru, bydd rhaid datblygu WPP i fod yn IM Co ac er bydd costau ynghlwm a gweithredu hyn, bod y sefyllfa yn cael ei orfodi. Gobeithir y bydd dychweliadau yn parhau yn gryf a'r costau buddsoddi yn is yn y pen draw.

Ar y 1af o Ebrill 2025 adroddwyd bod Sioned Parry ac Osian Richards wedi mynychu cyfarfod Cadeiryddion y Bwrdd Pensiwn dros Gymru. Cyfeiriwyd at y sylwadau ffafriol oedd wedi cael eu cyfleu yn y cyfarfod at gadw PPC yn annibynnol a bod y swyddogion yn gweithio yn hynod o galed o fewn amserlen dynn i ymateb i ofynion yr adolygiad.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Er y costau, byddai'r fenter yn fuddiol i Gymru
- Croesawu'r ymdrech i gadw annibyniaeth pwl Cymru
- Bod angen sicrhau bod y broses yn cyfateb i'r angen yn hytrach na phroses fawr, gostus yn creu newid er mwyn newid
- Mai'r nod yn wreiddiol oedd pwlio cronfeydd i arbed costau ond bellach ceir gorfodaeth i wario i sefydlu cwmni
- Llywodraeth DU heb gydnabod bod y drefn bresennol yn gweithio yn effeithiol ac yn dderbyniol, ond eto yn gorfod sefydlu cwmni i'w gymeradwyo gan Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA - Financial Conduct Authority)
- Cais i'r swyddogion rannu gwybodaeth am y fforymau a gyflwynodd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â photensial o arbedion yn y tymor hir (er nad oedd cyfeiriad at arbedion yn y Cynllun Busnes) nodwyd, o ran amcanion bras iawn, bydd costau Rheolwyr Buddsoddiadau yn ddibynnol ar berfformiad ac felly yn y tymor hir y gobaith yw bydd arbediad i Wynedd (er nad oedd sicrwydd ar hyn o bryd). Mewn ymateb i sylw ynglŷn ar effaith ar adnoddau a chostau staff, nodwyd nad oedd gwybodaeth ynglŷn â chyfrifoldebau staff wedi dod i law. Derbyniwyd y rhwystredigaeth nad oedd costau ffurfiol i'w rhannu, ond y byddai unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei dderbyn yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd.

Derbyniwyd y wybodaeth

7. SEMINAR BUDDSODDI LGC

Derbyniwyd adborth ar lafar gan Mr Hywel Eifion Jones oedd wedi mynychu'r

Seminar ar ran y Bwrdd. Amlygodd bod trafodaethau am ddiwygio'r trefniadau pwlio asedau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol wedi taflu cysgod ar y seminar, ond yn amlwg hefyd bod mwy o drafodaethau eleni o gwmpas buddsoddi yn lleol ym Mhrydain yn hytrach na buddsoddi byd-eang. Ategwyd bod sesiynau trafod am y prisiad a'r pwyslais ar ddechrau'r broses yn gynnar a hefyd drafodaeth ar 'or-fuddsoddi' a thorri lawr ar gyfraniadau. Nodwyd bod gwahaniaeth barn ar y pwnc yma a chwestiynau yn codi ynglŷn â sut i ddelfio a'r mater.

Diolchwyd am yr adborth

8. GOSOD RHAGDYBIAETHAU AR GYFER PRISIAD 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlinellu gosodiad rhagdybiaethau ar gyfer prisiad 2025 Cronfa Bensiwn Gwynedd. Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y disgwyliad oes ariannol, disgwyliad oes, a rhagdybiaethau demograffig eraill sydd rhaid i'r Gronfa eu gwneud, a bod y rhagdybiaethau hyn wedi eu gosod gan Actiwari'r Gronfa wedi trafodaethau a sesiwn hyfforddi gyda Swyddogion, Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau'r Bwrdd. Amlygwyd bod perthnasedd y rhagdybiaethau presennol wedi cael eu hystyried cyn cyflwyno newidiadau fyddai'n adlewyrchu nodweddion penodol y Gronfa a chymryd barn hirdymor iawn. Ategwyd bod y rhagdybiaethau hefyd yn cadw at ganllawiau CPLIL sy'n gofyn am ddoethineb yn y gyfradd ddisgownt, tra bod y rhagdybiaeth eraill yn amcangyfrifon gorau posib.

Yng nghyd-destun rhagdybiaethau ariannol, amlygwyd newidiadau sylweddol mewn amodau economaidd ers prisiad 2022, oedd yn cynnwys cyfraddau llog uwch, chwyddiant uwch na'r disgwyl, a mwy o anweddolrwydd (volatility) yn y farchnad. Nodwyd bod risgiau gwleidyddol a hinsawdd hefyd yn cael eu crybwyll fel ffactorau dylanwadol. Ategwyd bod y gyfradd disgownt (sydd yn cynrychioli cyfradd flynyddol gyfartalog dychwelyd buddsoddiad yn y dyfodol), wedi gweld newid sylweddol yn yr amgylchedd economaidd ers 2022, sydd o ganlyniad wedi arwain at enillion buddsoddi disgwylidig uwch yn y dyfodol, a lefelau cyllido, ond hefyd at gynydd mewn ansicrwydd. Amlygwyd mai argymhelliad yr Actiwari oedd cynyddu'r lefel bwyll ar gyfer y gyfradd ddisgownt o 75% i 80%.

Yng nghyd-destun codiadau i'r buddion ac ailbrisio Cynllun Cyfartaledd Gyrfa, sy'n gysylltiedig â CPI, nodwyd bod y dull yn aros yr un fath â phrisiad 2022, ond yn adlewyrchu disgwyliadau chwyddiant cyfredol. Adroddwyd mai'r lefel gyfartalog o chwyddiant i'r dyfodol ar 30 Tachwedd 2024 oedd 2.3% y flwyddyn (o'i gymharu â 2.7% y flwyddyn ym mis Mawrth 2022) ac felly argymhellwyd cynnal codiadau cyflog ar CPI + 0.5%, i adlewyrchu ansicrwydd er gwaethaf disgwyliadau chwyddiant cyfredol.

Cyfeiriwyd at ragdybiaethau disgwyliad bywyd gan nodi mai'r argymhelliad oedd mabwysiadau rhagdybiaeth gyffredinol o welliant 'diofyn' yn y dyfodol, a gyda rhagdybiaethau eraill megis rhagdybiaethau demograffi, nodwyd bwriad o fabwysiadu rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar ddadansoddi gwybodaeth o'r Gronfa ynghyd â phrofiad aelodaeth wirioneddol y Gronfa.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Pensiynau, mewn cyfarfod ar 17 Mawrth 2025, wedi mabwysiadu'r rhagolygon.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn am 'fwlch cyfraniad / taliadau' (payment / contribution

holiday) ac os dylid ystyried hyn fel risg, nodwyd bod y Ddeddfwriaeth bellach yn cael ei haddasu i atal hyn. Ategwyd pe byddai unrhyw ragdybiaethau sydd wedi eu derbyn angen eu hadolygu mewn ymateb i unrhyw sefyllfa sydd yn codi, nodwyd bod modd gweithredu hyn ac y byddai'n cael ei ystyried fel ymddygiad darbodus

Mewn ymateb i sylw, o ystyried anweddolrwydd y farchnad ar hyn o bryd, ac os byddai modd caniatáu prisiad dros dro, nodwyd bod hyn wedi cael ei ganiatáu mewn achosion eithriadol, ond eto, y bwriad yw addasu'r Ddeddf i atal hyn.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol,

- Y Gronfa wedi ei hariannu yn dda, onid doeth fyddai cadw'r sefyllfa fel y mae yn hytrach na lleihau cyfranddaliadau? rhag ofn i bethau fynd o chwith?
- Bod prisiad pob tair mynedd yn cadw rheolaeth dros gyfraniad y cyflogwr – rhaid bod yn ymwybodol o'r sefyllfa a cheisio osogi sefyllfa sydd yn mynd i fyny ac i lawr.
- Pwysig cynnal trafodaethau gyda'r prif gyflogwyr
- Cais i'r gofrestr risgiau cael ei chyflwyno / diweddarau erbyn y cyfarfod nesaf
- Derbyn mai rhagolygon sydd yma ac anodd yw cael eglurder heb ffigyrau cywir - er hynny angen sicrhau balans

Derbyniwyd y wybodaeth

9. CRYNODEB O DDADANSODDIAD BWLCH PENSIWN RHYW

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau adroddiad oedd yn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad diweddar a gynhaliwyd gan Hymans Robertson ar ddata aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd (data 2024/25) fel rhan o archwiliad Bwlch Pensiynau Rhywedd, sef y gwahaniaeth rhwng incwm ymddeol dynion ac incwm ymddeol merched. Nodwyd bod y gwahaniaeth yn cael ei fesur yn ôl y gwahaniaeth mewn cyfoeth ar ôl ymddeol, gan gynnwys eitemau fel eiddo.

Cyfeiriwyd at ganfyddiadau allweddol y dadansoddiad oedd yn cadarnhau bodolaeth Bwlch Pensiwn Rhywedd ac anghyfartaledd mewn symiau pensiwn pensiynwyr cyfredol ac Aelodau actif. Tynnwyd sylw at y ffactorau hynny sydd yn cyfrannu at y bwlch ynghyd â'r argymhellion sydd yn cael eu hawgrymu i fynd i'r afael â'r bwlch yn llawn. Nodwyd, er derbyn bod angen newidiadau a gweithredu ar lefel genedlaethol, bod modd gweithredu rhai camau ar lefel lleol hefyd, gyda'r cyflogwyr, yn hytrach na'r Gronfa Bensiwn yn arwain ar y materion hyn. Ategwyd, ymysg y gwaith sydd angen ei wneud, bod rhaid adolygu polisiau megis polisi dychwelyd i'r gwaith, patrymau gwaith ac oriau gwaith ac addysgu merched yn well ar oblygiadau cyfnod mamolaeth.

Amlygwyd yn unol â chais y Pwyllgor Pensiynau, bydd y mater yn cael ei gynnwys ar raglen cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Osian Richards (fel Aelod hefyd o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol) yn diolch am yr adroddiad ac yn croesawu'r manylion trylwyr oedd wedi eu cynnwys ynddo.
- Bod yr adroddiad yn un cynhwysfawr a diddorol ac yn anffodus yn

adlewyrchu patrwm cyffredinol pensiynau

- Yn croesawu'r argymhellion a'r camau nesaf
- Yn awgrymu i'r adroddiad gael ei rannu gyda holl gyflogwyr y Gronfa
- Awgrym i'r cyflogwyr gynnal arolwg ymysg cyfranogwyr i geisio mwy o wybodaeth a chanfod ymwybyddiaeth merched o'r gwahaniaethau

Derbyniwyd y wybodaeth

10. CYSYLLTU I'R DASHFWRDD PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlinellu cynnydd a chynlluniau Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer cysylltu â'r Dashfwrdd Pensiynau. Eglurwyd y byddai'r Dashfwrdd Pensiynau yn caniatáu i aelodau weld gwybodaeth am eu pensiwn mewn un lle, gan wella tryloywder ac ymgysylltu ar gyfer cynllunio ar gyfer eu hymddeoliad.

Tynnwyd sylw at yr amserlen cysylltu oedd yn cynnwys dyddiadau allweddol i sicrhau bod y gwaith a'r cyswllt wedi ei gwblhau erbyn y dyddiad cau, sef 31ain o Hydref 2025. Adroddwyd bod Heywood Pension Technologies wedi cael eu penodi fel Darparwr Gwasanaeth Integredig (ISP) ar gyfer y Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau fydd yn gweithredu fel cyswllt fydd yn cysylltu cynlluniau pensiynau a darparwyr gyda'r bensaernïaeth ddigidol ganolog, gan sicrhau bod y data yn cael ei rannu'n ddiogel.

Yn ogystal, adroddwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) i sicrhau bod y data yma hefyd yn gysylltiedig â'r Dashfwrdd Pensiynau. Bydd hyn yn cynnwys cydlynu â phob darparwr AVC i gadarnhau eu dulliau cysylltu â'u parodrwydd, gyda Chymdeithas Safonau Gweinyddu Pensiynau (PASA) wedi darparu rhestr wirio a phhecyn cymorth i gynorthwyo gyda'r broses hon.

Ystyriwyd bod y Dashfwrdd Pensiynau yn gam sylweddol ymlaen i wella profiad a gwasanaeth i aelodau'r Gronfa a gydag amserlen glir ar waith, roedd y Rheolwr Buddsoddi yn hyderus y byddai'r gofynion yn cael eu bodloni a'r dyddiad cau yn cael ei gyfarch. Ategwyd bod bwriad cyflwyno diweddariadau ar y cynnydd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau pellach i gyfarfodydd nesaf y Bwrdd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Mai da fydd cael y wybodaeth mewn un lle
- Bod y Llywodraeth wedi trafod y gwaith ers blynnyddoedd – braf gweld bod gwaith ar waith
- Yn croesawu sicrwydd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn y targed
- Bod angen ail drafod y mater ar ôl i'r cyswllt gael ei gwblhau

Derbyniwyd y wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.05 y.h.

CADEIRYDD